



Tlodi

Mae oddeutu 700,000 (23%) o bobl Cymru'n byw ar aelwydydd sydd ag incwm sy'n is na'r ffin tlodi gymharol (sef 60% o incwm canolrifol aelwydydd y DU). Dyma'r ganran uchaf o blith deuddeg rhanbarth y DU (heblaw Llundain). Fel yn achos y DU yn gyffredinol, y grŵp oedran sydd debycaf o fod yn byw mewn tlodi yw plant (31%) a'r lleiaf tebygol yw pensynwyr (14%)¹.

Mae oddeutu 200,000 o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru. Wrth iddynt dyfu, gallant ddisgwyl ennill llai o gymwysterau, bod mewn swyddi sy'n talu llai, dioddef mwy o afiechyd a marw'n gynt na'u cyfoedion mwy cyfoethog. Mae eglwysi ac elusennau yng Nghymru'n gweld y bobl sydd y tu ôl i'r ffigurau hyn ac yn credu bod yma wastraffu trasig ar botensial bodau dynol.

Dros y degawd diwethaf mae nodweddion tlodi wedi newid

- Mae cynnydd ym mhensiynau'r wladwriaeth a budd-daliadau uwch wedi lleihau tlodi ymhlith pensynwyr – er pe byddai pensynwyr Cymru'n hawlio'r gwerth £168 miliwn o Gredydau Pensiwn yr amcangyfrifir bod ganddynt yr hawl iddynt, byddai graddfeydd tlodi yn llai fyth.

- Mae tuedd hirdymor tuag at dlodi mewn gwaith. Mae ymron i ddwy ran o dair o'r plant sydd mewn tlodi a hanner yr oedolion oedran gweithio sydd mewn tlodi'n aelodau o deuluoedd sy'n gweithio.
- Mae hynny oherwydd bod Cymru'n dioddef o economi cyflogau is na gweddill y DU. Mae llawer o swyddi'n ansicr neu'n rhai nad ydynt yn cynnig oriau gwaith rheolaidd. Mae mwy a mwy o bobl yn gweithio am nifer cyfyngedig o oriau. Gall hynny fod oherwydd na allant ganfod rhagor o waith neu oherwydd bod cyfrifoldebau gofal neu broblemau meddygol yn cyfyngu ar eu gallu i weithio.
- Golyga'r tueddiadau hyn bod tlodi ymhlith pobl mewn oedran gwaith yn digwydd fwyfwy i rieni ac oedolion iau.

Newidiadau i drethiant, budd-daliadau a'r Isafswm Cyflog

Mae'r cymorth a gaiff teuluoedd drwy'r drefn budd-daliadau wedi lleihau'n sylweddol – i'r rhai sy'n gweithio a'r di-waith fel ei gilydd. Ers 2011 amcangyfrifir bod teuluoedd yng Nghymru wedi colli £900 miliwn y flwyddyn. Mae gostyngiadau

ar raddfa debyg yn yr arfaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Cafodd hynny effaith sylweddol ar Gymru, lle mae lefelau uwch o hawlio budd-daliadau anabledd a diweithdra na'r cyfartaledd ar gyfer y DU, yn ogystal â chyflog cyfartalog is. Teuluoedd gyda phlant, yn enwedig rhieni sengl, a ddiodefodd y colledion mwyaf mewn incwm.

Mae mwy a mwy o deuluoedd sydd angen cymorth wedi gorfod dioddef cyfnodau hir heb incwm – o achos camgymeriadau prosesu, sancsiynau budd-dal a chynnydd yn yr amser aros rhwng gwneud cais am fudd-dal a derbyn y taliad cyntaf (erbyn 2020 bydd hynny'n chwe wythnos o leiaf). Mae angen cymorth ar y bobl hyn gan fanciau bwyd ac elusennau eraill yn aml.

Ni fydd trothwyon treth incwm uwch a'r cynnydd arfaethedig yn yr Isafswm Cyflog ond yn cael effaith lliniarol bach iawn ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio sydd ar gyflogau isel. Fodd bynnag, bydd y polisiâu hynny'n cynyddu incwm aelwyddydd yn hanner uchaf y rhychwant incwm yn fwy nag incwm y rhai yn yr hanner isaf.

Llywodraeth Cymru: Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi²

Erys y cyfrifoldeb am bolisiau trethiant a budd-daliadau gan fwyaf gyda San Steffan a bydd hynny'n gosod y cyd-destun ar gyfer polisi tlodi yng Nghymru. Er nad yw'r Cynulliad yn cynorthwyo'n uniongyrchol gydag incwm teuluoedd, mae gan y Cynulliad lawer o bwerau a all effeithio ar fywydau dinasyddion tlotaf Cymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn amlinellu'r strategaeth bresennol i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru. Mae llawer o'r gwaith yn canolbwyntio ar deuluoedd sy'n byw mewn 52 o ardaloedd difreintiedig – a elwir yn ardaloedd 'Cymunedau'n Gyntaf'. Mae nifer o raglenni wedi'u hanelu at wella canlyniadau addysgol,

gan gynnwys cymorth ar gyfer y cyfnod cyn ysgol a'r blynyddoedd cynnar. Nod prosiectau eraill yw cynorthwyo pobl ifanc i symud i mewn i waith. Gwneir ymdrechion i gynorthwyo gyda chyllidebau teuluol drwy gadw gwerth Budd-dâl Treth y Cyngor yng Nghymru, sicrhau bod teuluoedd yn hawlio'u budd-daliadau, lleihau tldi tanwydd drwy ddefnyddio ynni'n effeithiol a thrafod â chyflenwyr ynni, a hybu undebau credyd a darpariaeth cyngor ynghylch dyled.

Mynegwyd pryderon na chynhwyswyd teuluoedd tlawd yn effeithiol yn y broses o lunio'r cynllun ac na fu rhai o'r rhaglenni'n effeithiol o safbwynt sicrhau canlyniadau mesuradwy megis cynorthwyo pobl i gael gwaith.

Cwestiynau i ymgeiswyr

1. Beth ddylai ymateb Cymru fod i deuluoedd a adewir heb ddigon i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol oherwydd cwtogi ar fudd-daliadau?
2. A yw polisi Cymru wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng cynorthwyo pobl sydd mewn tldi â'u hanghenion nawr a buddsoddi mewn gofal plant, addysg a seilwaith?
3. Sut gall Llywodraeth nesaf Cymru atal y dirywiad tuag at gyflogaeth lai sefydlog â chyflogau isel?

Cyfeiriadau

- 1 Joseph Rowntree Foundation, *Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales 2015* https://www.jrf.org.uk/report/monitoring-poverty-and-social-exclusion-wales-2015#jl_downloads_0 (gwelwyd 2 Chwefror 2016)
- 2 Llywodraeth Cymru, *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016* <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/socialjustice/120625tac/publications/socialjustice/120625tac/kpovplancy.pdf> (gwelwyd 31 Ionawr 2016)

